

POLICE AND CRIME PANEL PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2023/2024

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig

Rhoddyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am braesept arfaethedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2023/2024 ar 12 Ionawr 2023, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd Panel yr Heddlu a Throsedd adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r braesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/2024, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun, 30 Ionawr 2023 ym Modlondeb, Conwy.

Cynigodd y Comisiynydd gynyddu'r praesept i £100,244,287 (cynnydd o 6.80% o braesept 2022/2023), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 5.14% (cyfwerth â £333.09 y flwyddyn, cynnydd o £16.29 y flwyddyn, neu 31c yr wythnos i eiddo Band D).

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), a dynnodd sylw at y canlynol:

- Y praesept arfaethedig
- Newidiadau yn y dyraniadau cyllid rhwng 2022/2023 a 2023/2024
- Dyraniadau Canolog (brigdorri)
- Newidiadau i Grantiau Heddlu Gogledd Cymru
- Cymharu'r gyllideb yn erbyn proffil recriwtio
- Chwyddiant a Thwf Strwythurol

- Arbedion a Ganfuwyd
- Twf
- Cynnig ar gyfer Treth y Cyngor
- Arolygon
- Risgiau
- Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2023/2024

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig, roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gofyn am sicrwydd bod lefel yr arian wrth gefn a gynhelir yng nghyllideb plismona (£42miliwn) yn briodol. Er bod hyn yn ymddangos yn lefel iach o arian wrth gefn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod gan y Comisiynydd ddyletswydd i gynnal arian wrth gefn digonol i reoli risg. Ystyriwyd ei fod yn ddoeth cynnal rhwng 3% a 5% o wariant referniw net; roedd yr Arian Wrth Gefn Cyffredinol yn cael ei gynnal uwchlaw 3%, gyda chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ymhellach yn cael eu cynnal i leihau risg. Cydnabuwyd y cynhaliwyd adolygiad manwl fel rhan o'r broses gynllunio i asesu sut y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r tanwariant a ragwelwyd yn 2022/2023 o oddeutu £6miliwn i reoli gwariant a risg i alluogi cyllideb wedi'i mantoli a chefnogi parhad y gwasanaeth.

Roedd yr Aelod sy'n Gefnogwr ar gyfer Cyllid yn cydnabod na ddylai'r arbedion a ganfuwyd o £3.753 miliwn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth gan eu bod yn ymwneud ag oedi mewn uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, ffactor trosiant, contract canfod TGCh, incwm a gostyngiad mewn cyfraniadau pensiwn staff heddlu. Fodd bynnag, oherwydd mantolen gref, gall unrhyw risg i'r gyllideb gael ei liniaru drwy ddefnyddio arian wrth gefn.

Yn ogystal, roedd yr Aelod sy'n Gefnogwr yn cwestiynu'r cynigion oedd yn gyfanswm o £7miliwn, a gyflwynwyd ar gyfer twf, fodd bynnag, pan oedd y rhain yn cael eu blaenoriaethu roeddent yn gostwng i £1.236miliwn. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid, Heddlu Gogledd Cymru mai'r cynigion critigol yn unig oedd wedi eu cynnwys; fodd bynnag, roedd yn cael ei gydnabod y gall rhai cynigion fod yn risg os nad oeddent yn cael eu hariannu dros dro, felly, roeddent yn cael eu hadolygu i leihau unrhyw risg.

Codwyd nifer o faterion fel a ganlyn:

- Roedd y gostyngiad mewn dyraniadau cyllid yn golygu bod y praesept yn cyfrif am dros 53% o'r gyllideb plismona.
- Cadw Swyddogion.
- Effaith Dyraniad Canolog (brigdorri) y dyraniad cyllid.
- Effaith diddymu'r Grant Cyfalaf.
- Risgiau cysylltiedig â'r fformiwla cyllid newydd; cyllid y dyfodol a chyflawni arbedion yn y dyfodol.

Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cydnabod y byddai'r pwysau chwyddiant uwch na'r disgwyl wedi cynyddu Treth y Cyngor gan 11+%, fodd bynnag, oherwydd yr arbedion a nodwyd, cyllid dros dro, cynnydd uwch yn y sylfaen treth a thwf hanfodol yn unig yn cael ei ystyried gan yr Heddlu, roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gallu cynnig cynnydd o 5.14% yn Nhreth y Cyngor.

Felly, o ystyried y ffactorau hyn, roedd y Panel yn teimlo y gallent gefnogi'r cynnydd arfaethedig, er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darparu gwasanaeth plismona gweithredol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2023/2024.

ARGYMHELLION:

(a) Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £100,244,287 ar gyfer 2023/2024.

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 5.14% - mae hynny'n gyfystyr â £333.09 y flwyddyn, sef cynnydd o £16.29 y flwyddyn neu 31c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Mae hyn yn cynyddu'r Sail Treth 1.58%**
- **Mae hyn yn gynyddu mewn praesept o 6.80% o 2022/2023.**

(b) Nodi bod Grant gwaelodlin y Llywodraeth wedi cynyddu o 0.35%/£0.3m.

(c) Nodi mai cyfanswm pwysau chwyddiant yw 7.1% neu £13miliwn.

(d) Nodi bod £2.362miliwn o gyllid dros dro wedi'i gynnwys a bod y Grant Penodol Uplift wedi'i gynyddu o £1.442m yn amodol ar gynnal niferoedd Swyddogion.

(e) Nodi bod £1.236miliwn o dwf na ellir ei osgoi wedi'i gynnwys.

(f) Nodi bod £3.753 miliwn o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2023/2024.

(g) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:

- **Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.5% (£15) yn 2024/2025 a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfwerth â 3.45% yn 2025/26, 3.33% yn 2026/27, a 3.22% yn 2027/2028.**
- **Amcangyfrifir y bydd grantiau plismona'n cynyddu 1.68% yn 2024/25 ac 1% am y blynyddoedd dilynol.**
- **Y bydd y dyfarniad cyflog blynyddol yn 2.5% ym mis Medi 2023, gyda 0.5% ychwanegol yn cael ei glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/2024, a 2.5% i'w gymhwyso bob mis Medi dilynol.**
- **Nodi y dyfarnwyd cynnydd yn y grant i gefnogi Ymgyrch Uplift (costau cylchol a chostau sefydlu) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y dibenion hynny; mae'r ymrwymadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb.**